

Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Conwy
(Ffyrdd Amrywiol Llandudno, Craig y Don, Bae Penrhyn)
(Gwahardd a Chyfyngu ar Aros) 2018

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn bwriadu gwneud Gorchymyn dan Adrannau 1 a 2 a Rhan IV Atodlen 9, Deddf Rheoli Trafnidiaeth Ffyrdd 1984, a'i effaith fydd –

1. Gwahardd cerbydau rhag aros o gwbl ar y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen 1.
2. Gwahardd cerbydau rhag aros o gwbl rhwng 9am-6.30pm o 1 Ebrill tan 31 Hydref ar y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen 2.
3. Gwahardd cerbydau rhag aros o gwbl rhwng 8am-5pm ar y darnau o ffordd a nodir yn Atodlen 3.
4. Dynodi'r darn o ffordd yn Atodlen 4 fel man llwytho.
5. Dynodi'r darn o ffordd a nodir yn Atodlen 5 fel man llwytho o 6am-10am a gwahardd aros i 90 munud a dim dychwelyd o fewn 60 munud rhwng 10am-5pm
6. Dynodi'r darn o ffordd a nodir yn Atodlen 6 fel safle tacsis.
7. Dim aros a gwahardd llwytho a dadlwytho ar unrhyw adeg ar y darn ffordd a nodir yn Atodlen 7.
8. Dileu'r cyfyngiadau ar y darnau o ffordd a nodir yn Atodlenni 8 a 9.

Bydd y Gorchymyn arfaethedig yn darparu eithriadau a fydd yn caniatáu aros i bwrpas dod allan o gerbyd, mynd i mewn i gerbyd, llwytho, dadlwytho, a gwaith cynnal a chadw, gwaith atgyweirio, ac yn y blaen. Bydd y Gorchymyn arfaethedig hefyd yn darparu eithriadau a fydd yn caniatáu i gerbydau sydd yn arddangos bathodyn unigolyn anabl, ynghyd â disg parcio unigolyn anabl.

Gellir archwilio copi o'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â map sydd yn dangos y darnau ffordd y mae'r Gorchymyn arfaethedig yn berthnasol iddynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros fwriadu gwneud y Gorchymyn, yn Llyfrgell Llandudno ac yn swyddfeydd y Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, Bodlondeb, Conwy, yn ystod oriau agor/swyddfa arferol.

Dylid anfon unrhyw wrthwynebiadau i'r Gorchymyn arfaethedig, ynghyd â'r rhesymau drostynt, ar bapur at Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy, LL32 8DU, erbyn 21 Chwefror 2018.

Atodlen 1 (Dim aros ar unrhyw adeg)

Abbey Road	<p>Ochr y gogledd-orllewin; O bwynt 18 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r gyffordd â Llewelyn Avenue am bellter o 31 metr tua'r de-orllewin.</p> <p>Ochr y de-ddwyrain; o bwynt 85 metr i'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd â Great Orme's Road am bellter o 20 metr tua'r gogledd-ddwyrain.</p>
Llewelyn Avenue	Y ddwy ochr; o'i chyffordd ag Abbey Road am bellter o 4 metr tua'r gorllewin.
Builder Street West	Ochr y gorllewin; o bwynt 46 metr i'r de o'i chyffordd â'r parc coetsis am bellter o 178 metr.
Tudor Road	Ochr y gorllewin; o bwynt 17 metr i'r de o'i chyffordd â The Parade am bellter o 12 metr tua'r de.
Arvon Avenue	Y ddwy ochr; O bwynt 17 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Gloddaeth Street am bellter o 5 metr tua'r gogledd-orllewin.
Sylva Gardens North	Y ddwy ochr; o'i chyffordd â Nant-y-Gamar Road am bellter o 8 metr tua'r gorllewin.
Roumania Drive	Y ddwy ochr; o'i chyffordd â Nant-y-Gamar Road am bellter o 20 metr tua'r gorllewin.
St Margaret's Drive	Y ddwy ochr; o'i chyffordd â Nant-y-Gamar Road am bellter o 8 metr tua'r gorllewin.
Nant-y-Gamar Road	<p>Ochr y gorllewin;</p> <p>a) am bellter o 10 metr naill ochr i'w chyffordd â Sylva Gardens North.</p> <p>b) am bellter o 10 metr naill ochr i'w chyffordd â St Margaret's Drive.</p>
Queen's Road	Ochr orllewinol; o bwynt 30 metr i'r gogledd o'i chyffordd â Balfour Road, am bellter o 33 metr i gyfeiriad y gogledd.
Clarence Road	Ochr y dwyrain; o bwynt 11 metr i'r de o'i chyffordd â The Parade am bellter o 16 metr tua'r de.
Old Road	Ochr y gogledd-ddwyrain; o'i chyffordd â Tabor Hill i'w chyffordd â Plas Road.
Tŷ Gwyn Road	<p>Ochr y de-orllewin; o bwynt 16 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd â Tabor Hill am bellter o 8 metr tua'r de-ddwyrain.</p> <p>Ochr y gogledd-ddwyrain; o bwynt 46 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Tabor Hill am bellter o 3 metr tua'r gogledd-orllewin.</p>

Clement Avenue	Ochr y de-orllewin; 5 metr ar y naill ochr i'w chyffordd â Clement Passage.
Clement Passage	Y ddwy ochr; ar ei hyd.
Bryniau Road	Ochr y de-orllewin; o'i chyffordd â Fairways am bellter o 53 metr tua'r gogledd-orllewin.
Brookes Street	Ochr y gogledd-ddwyrain; a) o bwynt 6 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd ag Albert Street am bellter o 43 metr tua'r de-ddwyrain. b) o bwynt 12 metr i'r gogledd-orllewin o'i chyffordd ag Edward Street am bellter o 25 metr tua'r de-ddwyrain. Ochr y de-orllewin; o bwynt 10 metr i'r de-ddwyrain o'i chyffordd ag Albert Street at ei chyffordd ag Edward Street.
Ffordd yr Orsedd	Ochr y de; o bwynt 16 metr i'r dwyrain o'i chyffordd â Ffordd yr Ysbyty, am bellter o 30 metr i gyfeiriad y dwyrain.
Ffordd fynediad yr Ysbyty	Ochr y gorllewin; o'i chyffordd â Ffordd yr Orsedd am bellter o 15 metr tua'r de. Ochr y dwyrain; o'i chyffordd â Ffordd yr Orsedd am bellter o 5 metr tua'r de.
Gwydyr Road	Ochr y gogledd-ddwyrain: o'i chyffordd â Maesdu Road am bellter o 8 metr tua'r de-ddwyrain.
Maesdu Road	Ochr y de-ddwyrain: o'i chyffordd â Gwydyr Road am bellter o 10 metr tua'r gogledd-ddwyrain.
Penrhyn Beach West	Ochr y de; o'i chyffordd â Penrhyn Beach am bellter o 15 metr tua'r gorllewin.
Penrhyn Beach	Ochr y gorllewin; o'i chyffordd â Penrhyn Beach East am bellter o 5 metr tua'r de.
Ffordd Ty'n-y-Coed	Y ddwy ochr; o'i chyffordd â Tŷ Gwyn Road am bellter o 11 metr tua'r de-orllewin.
Chantrey Passage	Y ddwy ochr; ar ei hyd.
Cae Bach Llandudno	Ochr y gogledd-ddwyrain a'r gogledd-orllewin; o'i chyffordd â Builder Street am bellter o 41 metr tua'r gogledd-orllewin ac wedyn am bellter o 20 metr tua'r de-orllewin. Ochr y de-orllewin; o bwynt 23 metr tua'r gogledd-orllewin o'i chyffordd â Builder Street am bellter o 6 metr tua'r gogledd-orllewin.

Charlotte Road	Y ddwy ochr; ar ei hyd.
Mostyn Broadway	Ochr y de; o bwynt 18 metr tua'r dwyrain o Charlotte Road am bellter o 36 metr i gyfeiriad y gorllewin.
North Parade	Ochr y dwyrain; o bwynt 7 metr i'r gogledd o'r slipffordd sy'n rhedeg yn gyfochrog â North Parade gyferbyn a'r Pier am bellter o 17 metr tua'r de.
Y slipffordd sy'n rhedeg yn gyfochrog â North Parade gyferbyn a'r Pier	Ochr y de-ddwyrain; o'i chyffordd â North Parade am bellter o 35 metr tua'r gogledd.

Atodlen 2 (Dim aros o 9am tan 6.30pm, 1 Ebrill tan 31 Hydref)

Tŷ Gwyn Road	Ochr y gogledd; o'i chyffordd ag Wyddfyd Road hyd at bwynt 55 metr i'r dwyrain o Old Road. Ochr y de; o bwynt 37 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Llwynon Road hyd at bwynt 41 metr i'r dwyrain o Old Road.
Llwynon Road	Y ddwy ochr; o'i chyffordd â Tŷ Gwyn Road am bellter o 25 metr tua'r de-orllewin.

Atodlen 3 (Dim aros o 8am tan 5pm)

Trevor Street	Y ddwy ochr; ar ei hyd.
----------------------	--------------------------------

Atodlen 4 (Man llwytho)

Market Street	Ochr y gogledd-orllewin; o bwynt 3 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Windsor Passage am bellter o 15 metr tua'r de-orllewin.
----------------------	--

Atodlen 5 (Man llwytho o 6am tan 10am ac aros am 90 munud, dim dychwelyd o fewn 60 munud o 10am tan 5pm)

Gloddaeth Street	Ochr y gogledd-orllewin; o bwynt 8 metr i'r de-orllewin o Bodhyfryd Road am bellter o 17 metr tua'r de-orllewin.
-------------------------	---

Atodlen 6 (Safle Tacsis)

The Parade	Ochr y de; o bwynt 126 metr i'r gorllewin o'i chyffordd ag Irving Road, am bellter o 6 metr i gyfeiriad y gorllewin.
-------------------	---

Atodlen 7 (Dim aros ar unrhyw adeg a gwahardd llwytho a dadlwytho)

Clonmel Street	Ochr y de-ddwyrain; o'i chyffordd â Bodafon Street am bellter o 14 metr tua'r de-orllewin.
-----------------------	---

Atodlen 8 (Diddymiadau)

Tudor Street	Ochr y gorllewin; o bwynt 17 metr i'r de o'i chyffordd â The Parade am bellter o 12 metr tua'r de. (Diddymu aros cyfyngedig)
Market Street	Ochr y gogledd-orllewin; o bwynt 3 metr i'r de-orllewin o'i chyffordd â Windsor Passage am bellter o 15 metr tua'r de-orllewin. (Diddymu dim aros ar unrhyw adeg)
Clarence Road	Ochr y dwyrain; o bwynt 11 metr i'r de o'i chyffordd â The Parade am bellter o 16 metr tua'r de. (Diddymu rhan o'r safle tacsis)
Tŷ Gwyn Road	Ochr y gogledd; o bwynt 82 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Wyddfyd Road am bellter o 123 metr tua'r dwyrain. Ochr y de; o bwynt 37 metr i'r gorllewin o'i chyffordd â Llwynon Road hyd at bwynt 41 metr i'r dwyrain o Old Road. (Dileu'r cyfyngiad ar aros o 9am tan 6pm)
Llwynon Road	Y ddwy ochr; o'i chyffordd â Tŷ Gwyn Road am bellter o 25 metr tua'r de-orllewin. (Dileu'r cyfyngiad ar aros o 9am tan 6pm)

Atodlen 9 (Dileu)

Gloddaeth Street	Ochr y gogledd-orllewin; o bwynt 8 metr i'r de-orllewin o Bodhyfryd Road am bellter o 17 metr tua'r de-orllewin. (Diddymu man llwytho)
-------------------------	---

Dyddiedig: 24 Ionawr 2018



Delyth Jones
Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu